# Y Fframwaith hunan-adolygu

## Elfen 1 (Canllawiau)

# Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r canllaw yma i'r fframwaith hunan-adolygu yn cynnwys yr holl ddatganiadau y byddwch yn barnu eich ysgol yn eu herbyn ar gyfer Elfen 1. Mae hefyd yn cynnwys cwestiynau ac yn awgrymu ffynonellau o dystiolaeth y gallwch eu hystyried fel cefnogaeth i'ch barnau. Mae fersiwn arall o'r ddogfen hon ar gael ar ffurf ffeil Word, lle mae'r adran gwestiynau wedi ei gyfnewid am ffrâm destun ar gyfer cofnodi eich tystiolaeth eich hunan. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r ddogfen honno cyn bwydo'r wybodaeth i mewn i'r system ar-lein, ond mae'n hanfodol eich bod yn cwblhau'r hunan-adolygiad ar-lein cyn gwneud cais i gael eich asesu ar gyfer y Marc TGCh.

Gellir defnyddio'r canllaw yma i'r fframwaith hunan-adolygu ochr yn ochr â'r disgrifiadau lefel yn Elfen 1 gan Becta i'ch helpu i wneud penderfyniad ynglŷn â'ch sefyllfa yn natblygiad TGCh ar gyfer yr elfen 'Arweinyddiaeth a rheolaeth'.

Mae Becta yn argymell yn gryf y dylech ddefnyddio'r offer hunan-adolygu ar-lein yn hytrach na'r fersiwn papur.

Ionawr 2009

www.becta.org.uk/schools/selfreviewframework

# Elfen 1 - Arweinyddiaeth a Rheolaeth

## 1a Y Weledigaeth ar gyfer TGCh

Mae'r llinyn hwn yn adlewyrchu'r pwysigrwydd o gael gweledigaeth gynhwysfawr ar gyfer TGCh ac un sy'n cynnwys yr Uwch Dim Rheol. Mae ysgolion sy'n gwneud defnydd effeithiol o TGCh yn sicrhau fod y weledigaeth yn cael ei pherchnogi a'i deall gan yr holl staff, ac yn ymdrechu i ymrwymo budd-ddeiliaid eraill yn cynnwys llywodraethwyr, rhieni, grwpiau cymunedol a phartneriaid eraill. Dylai gweledigaeth effeithiol gynnal a gwella amcanion yr ysgol yn nhermau addysgu, dysgu rheoli a gweinyddu. Fodd bynnag, nid yw gweledigaeth yn sefydlog ac mae angen ei hadolygu a'i diweddaru yng ngoleuni datblygiadau mewn technoleg, ymarfer a pholisi cenedlaethol.

| 1a-1 Y weledigaeth | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ein gweledigaeth ar gyfer TGCh ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| yn cael ei ddatgan yn glir | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | da iawn |
| yn canolbwyntio ar waith yr ysgol drwy | agweddau ymylol | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yr agweddau i gyd |
| yn gyson gydag amcanion cyffredinol ein hysgol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn llawn |
| yn cynnwys anghenion dysgu | ychydig o ddisgyblion | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yr holl ddisgyblion a’r gymuned ehangach |
| yn rhagweld datblygiadau’r dyfodol mewn technoleg | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn llawn |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Oes gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer TGCh sy'n cynnwys holl aelodau cymuned yr ysgol?
- Ydy'r weledigaeth wedi ei ffocysu'n fwy ar brofiadau disgyblion mewn dysgu a'r addysgu neu ar y dechnoleg a'r adnoddau?
- Ydy'r weledigaeth yn cynnwys y materion ehangach megis rheolaeth a gweinyddiaeth?
- Ydy'r weledigaeth TGCh wedi ei chysylltu i amcanion a dyheadau ehangach yr ysgol?
- Ydy'r weledigaeth yn arwain yr ysgol at arferion newydd ac arloesol?
- Sut mae'r weledigaeth yn adnabod datblygiadau polisi cenedlaethol?

| 1a-2 Datblygiad a pherchnogaeth y weledigaeth | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae datblygiad ein gweledigaeth ar gyfer TGCh wedi ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| cynnwys staff | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | y cwbl |
| cynnwys llywodraethwyr | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | y cwbl |
| cynnwys disgyblion | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | y cwbl |
| arwain staff, llywodraethwyr a disgyblion i’w ddeall ac i’w dderbyn | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | y cwbl |
| arwain rhieni / gofalwyr, budd-ddeiliaid eraill a’r gymuned ehangach i’w gefnogi | ychydig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | y cwbl |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Pwy sydd wedi bod yn ymwneud â datblygiad gweledigaeth TGCh yr ysgol?
- Pa mor eang y deëllir ac y croesewir y weledigaeth?
- Ydy'r weledigaeth TGCh wedi ei mynegi a'i chofnodi'n glir fel bod pawb yn gallu cael mynediad ati a'i deall?
- Ydy'r ysgol wedi ystyried a yw, a sut mae'r disgyblion a neu'r budd-ddeiliaid wedi bod yn ymwneud â'r weledigaeth?
- Ydy'r ysgol wedi ystyried agweddau cynaladwyedd gwyrdd a chyllidol?

## Elfen 1 - Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### 1a Y Weledigaeth ar gyfer TGCh

| 1a-3 Adolygu'r weledigaeth | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae adolygiad o'n gweledigaeth ar gyfer TGCh yn ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| systematig | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | bob amser |
| wybodus drwy arfarniad mewnol | byth | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn rheolaidd |
| tynnu ar wybodaeth o dechnolegau newydd sy’n ymddangos | byth | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn aml |
| tynnu ar wybodaeth o ymarfer effeithiol o lefydd eraill | byth | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn aml |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Ydy'r weledigaeth yn cael ei hadolygu?
- Ydy hi'n cael ei hysbysu gan ddealltwriaeth o dechnolegau newydd ac arferion addysgol sy'n ymddangos?
- Ydy deilliannau gwerthuso'r ysgol ei hun yn cyfrannu at yr adolygiad?
- Ydy'r ysgol wedi ystyried barn y disgyblion, y staff, rhieni / gofalwyr a budd-ddeiliaid eraill?
- Wrth gadw'n gyfredol, ydy'r ysgol wedi gofyn am gyngor, arweiniad a gwybodaeth o'r tu allan, er enghraifft, ysgolion eraill, Awdurdod Lleol, unigolion ac asiantaethau eraill?

**Tystiolaeth:**
Datganiad o amcanion yr ysgol. Datganiad o weledigaeth ar gyfer TGCh (ysgrifenedig neu ar lafar) ac unrhyw gywiriadau. Trafodaethau gyda staff ac eraill i adnabod eu dealltwriaeth a'u perchnogaeth o'r weledigaeth TGCh a'u swyddogaeth mewn creu ac adolygu'r weledigaeth honno. Prosesau ar gyfer adolygu'r weledigaeth, yn cynnwys datganiadau gweledigaeth flaenorol. Cofnodion cyfarfodydd llywodraethwyr a chyfarfodydd eraill. Cyfathrebiadau tu hwnt i'r ysgol i adnabod y ddealltwriaeth a'r rhannu o'r weledigaeth ar gyfer TGCh. Trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol gyda disgyblion.

## Strategaeth i gyflawni gweledigaeth TGCh

### 1b Strategaeth i gyflawni’r weledigaeth TGCh

Mae'r llinyn hwn yn edrych ar yr arfer mwyaf effeithiol ac yn sicrhau fod yna strategaeth sy'n gosod blaenoriaethau ar gyfer gwireddu gweledigaeth TGCh a bod hyn yn anhepgor i gynllunio ysgol gyfan ac yn ystyried pwynt datblygiad yr ysgol ar hyn o bryd. Mae gwahaniaeth yn cael ei wneud rhwng arweinyddiaeth strategol a gweithredol fel bod yr ysgol yn canolbwyntio ar gynllunio cyffredinol a darpariaeth o ddydd i ddydd. Mae'r llinyn yn pwysleisio pwysigrwydd cynllunio cyllidol manwl sy'n ystyried holl gostau perthynol ac effaith ar ddeilliannau. Amlygir yr angen am gynllunio effeithiol ar gyfer cynaladwyedd tymor hir yn ogystal.

| **1b-1 Strategaeth Arweinyddiaeth** | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ein strategaeth arweinyddiaeth a'n cyfrifoldebau strategol ar gyfer TGCh yn golygu bod ...** | | **5** | **4** | **3** | **2** | **1** | |
| Pennaeth yr ysgol yn cyfranogi | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn rhyngweithiol |
| Aelodau’r Uwch Dîm Rheoli yn cyfranogi | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn llawn |
| Y llywodraethwyr yn cyfranogi | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn arwyddocaol |
| Budd-ddeiliaid allanol yn cyfranogi | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn arwyddocaol |
| Effaith ar draws yr ysgol | ychydig o agweddau | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn arwyddocaol |
| Effeithio ar | ychydig o agweddau | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yr holl agweddau |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Ble mae cyfrifoldeb am arweinyddiaeth strategol yn gorwedd a sut y penderfynwyd ar hyn?
- I ba raddau mae pennaeth yr ysgol ac uwch arweinyddiaeth yr ysgol yn weithredol ymwneud â strategaeth am holl agweddau TGCh?
- Beth ydy ymglymiad y llywodraethwyr?
- Sut y cedwir y tim arweinyddiaeth yn gyfredol ar bolisïau cenedlaethol a strategaethau newydd?

| **1b-2 Arweinyddiaeth Weithredol** | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ein harweinyddiaeth weithredol o'n strategaeth TGCh ...** | | **5** | **4** | **3** | **2** | **1** | |
| yn glir a chyson | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn llawn |
| wedi ei gydlynu | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn effeithiol |
| gyda llwybrau atebolrwydd sydd | ddim yn glir | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn glir |
| wedi ei ddosrannu ar draws yr ysgol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn effeithiol |
| yn cael effaith ar draws yr ysgol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn arwyddocaol |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Pwy sydd â chyfrifoldeb ar gyfer arweinyddiaeth weithredol o TGCh?
- P mor dda y cyd-gysylltir TGCh ar draws ysgol gyfan?
- Ydy'r rhai sydd â'r cyfrifoldeb hwn yn cael eu hwyluso a'u cefnogi gan arweinwyr strategol?
- Ydy unigolion yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau ac i bwy y maent yn atebol?

## Strategaeth i gyflawni gweledigaeth TGCh

### 1b Strategaeth i gyflawni'r weledigaeth TGCh

| 1b-3 Strategaeth i gyflawni'r weledigaeth | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae'n strategaeth TGCh ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| wedi ei ddiffinio a'i gynllunio'n glir | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | da iawn |
| wedi ei drefnu i gyd fynd gyda'n gweledigaeth ar gyfer TGCh | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | Yn llawn |
| yn set o flaenoriaethau | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn glir iawn |
| yn adnabod nodau, gweithredoedd a chyfrifoldebau | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn glir iawn |
| yn galluogi arloesi | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | da iawn |
| yn gosod targedau heriol ar effaith | o fewn yr ysgol | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | o fewn a thu hwnt i'r ysgol |
| wedi ei hintegreiddio i gynllunio gwelliant ysgol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn llawn |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Oes strategaeth TGCh wedi ei diffinio'n glir?
- Ydy hi'n gosod allan flaenoriaethau clir ar gyfer gweithredu sy'n arwain y cynllunio mwy manwl?
- Ydy'r strategaeth yn ystyried yr holl elfennau rhyng-ddibynnol sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ei lwyddiant, yn llunio cwricwlwm, staffio, datblygiad staff, rheoliaeth a gweinyddiaeth yn hytrach na dim ond adnoddau?
- Fydd y strategaeth yn galluogi'r ysgol i gyflawni ei gweledigaeth?

| 1b-4 Effeithiolrwydd cyllidol | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ein cyllido ar gyfer TGCh ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| wedi ei gynllunio | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | da iawn |
| yn ystyried | costau caledwedd a meddalwedd yn unig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | cyfanswm cost perchnogaeth |
| yn cysylltu gwariant i welliannau | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | Yn llawn |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Oes yna gyllideb TGCh sydd wedi ei diffinio'n glir a'i chynllunio'n dda?
- Oes yna ymwybyddiaeth o gyfanswm cost perchnogaeth, yn cynnwys er enghraifft, cynnwys addysgol digidol, cymorth a chynnal a chadw technolegol, datblygiad staff a chostau adnewyddu?
- Sut mae'r ysgol yn gwerthuso safon a gwerth gwasanaethau TGCh cyfredol?
- Ydy'r ysgol yn gwneud cysylltiad rhwng ei gwariant ar TGCh a gwelliannau mewn addysgu dysgu a deilliannau disgyblion?
- Sut mae canfyddiadau o'r fath adolygiadau yn dylanwadu ar ddarpariaeth ariannol a chynllunio'r dyfodol?

## Strategaeth i gyflawni gweledigaeth TGCh

### 1b Strategaeth i gyflawni'r weledigaeth TGCh

| 1b-5 Cynaladwyedd darpariaeth TGCh | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae cynaladwyedd ein darpariaeth TGCh yn ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| rhan o gynllunio TGCh | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | anhepgor |
| cael ei adlewyrchu ym mlaenoriaethau ar gyfer cynllunio tymor hir yr ysgol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn glir iawn |
| cynnwys cynaladwyedd ariannol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn llawn |
| cynnwys cynaladwyedd amgylcheddol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn llawn |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Ydy strategaeth TGCh yn cymryd golwg tymor hir o TGCh sy'n cynnwys anghenion presennol a thechnolegau?
- Ydy hi'n ymdrin â'r angen am ddilyniant a chynaladwyedd ariannol, er enghraifft, i gynnal a datblygu lefelau adnoddau, arbenigedd staff a darpariaeth gwricwlaidd yn y tymor hiraf?
- Oes yna olwg ehangach o gynaladwyedd, er enghraifft, os oes newidiadau mewn personel yn cynnwys mewn arweinyddiaeth, materion perthnasol i gynaladwyedd gwyrdd?

**Tystiolaeth:**

Strategaeth TGCh yr ysgol a chynlluniau datblygiad / welliannau eraill. Blaenoriaethau dogfennol ar gyfer datblygiad TGCh o fewn cynllunio ysgol gyfan. Trafodaethau gydag arweinwyr at amrywiol lefelau ar draws yr ysgol. Cofnodion llywodraethwyr, staff, testunau gyfarfodydd cyfnod, a grwpiau gweithredu TGCh. Y datganiad ar gyfer TGCh. Trafodaethau gyda staff i adnabod cwmpas y strategaeth a'u dealltwriaeth o'r blaenoriaethau. Cynlluniau cyllideb TGCh a phrosesau. Dogfennaeth a/neu cynlluniau perthnasol i gynaladwyedd. Strategaethau staffio ac arweinyddiaeth, disgrifiadau swydd a dogfennaeth eraill perthynol i arweinyddiaeth strategol a gweithredol. Polisi a chofnodion datblygiad proffesiynol.

## Elfen 1 - Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### 1c Y defnyddio o TGCh i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trefniadaethol

Edrychir yma ar effeithiolrwydd y defnydd o systemau rheolaeth gwybodaeth, data perfformiad a'r defnydd o TGCh i wella cyfathrebu. Hefyd ceir ffocws ar warchodaeth, diogelwch a chyfreithioldeb y defnydd o TGCh a'i ddefnydd i wella arferion gweithio. Ar ei orau mae arweinyddiaeth strategol yn hybu/cynnal y defnydd o TGCh i wella effeithlonedd trefniadaeth ar draws ystod o weithgareddau.

| 1c-1 Defnydd o systemau rheoli gwybodaeth | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ein defnydd o TGCh i gefnogi'n tasgau rheolaeth ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| Mae ganddo ehangder defnydd sy'n | gyfyngedig | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | eang |
| Mae'n defnyddio system(au) sydd | ar wahân | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | wedi eu hintegreiddio'n llawn |
| Mae'n rhoi mynediad i staff sydd | yn gyfyngedig | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | ar gael i bawb |
| Mae'n caniatáu i staff rannu adnoddau a data | minimal | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn llawn |
| Mae ganddo effaith ar reolaeth | tila | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | arwyddocaol iawn |
| Mae'n darparu mynediad tu hwnt i'r ysgol | dim ar gael | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | ar gael |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- I ba raddau mae systemau TGCh yr ysgol wedi eu hintegreiddio i sicrhau nad yw data yn cael ei fewnbynnu ond unwaith a'i fod ar gael ar gyfer gwahanol ddefnydd a gwahanol ddefnyddwyr?
- Sut mae gweinyddiaeth yr ysgol a rhwydweithiau cwricwlaidd wedi eu hintegreiddio?
- Sut mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o TGCh ar gyfer rheoli, ydy'r systemau TGCh wedi eu cynllunio a'u cyd-gysylltu?
- Sut mae systemau TGCh yn galluogi adnoddau a data i gael eu rhannu gan staff?
- Sut mae systemau TGCh yn cael eu gwneud yn hawdd i'w cyrchu i staff priodol pan fo angen?
- Sut mae systemau TGCh yn galluogi dulliau newydd o weithio, cyflymach neu'n syml ddyblygu prosesau â llaw presennol?
- Beth ydy effaith TGCh ar reolaeth yr ysgol?
- Ydy defnydd o systemau TGCh ar gyfer rheolaeth yn cael eu cadw dan adolygiad?

| 1c-2 Y defnydd o reoli data | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Defnyddiwn TGCh i reoli data perfformiad disgyblion ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| drwy gofnodi a dadansoddi data perfformiad | cyfyngedig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn eang |
| ar gyfer olrhain cynnydd a gosod targedau | cyfyngedig | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn eang |
| drwy ddarparu mynediad ysgol gyfan i staff | ddim yn ei le | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | defnyddio'n gyson |
| drwy ddarparu mynediad a galluogi defnydd gan ddisgyblion a rhieni / gofalwyr | ddim yn ei le | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | defnyddio'n eang |
| drwy ddarparu mynediad perthnasol at asiantaethau allanol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | pan yn briodol |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Pa mor dda mae TGCh yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cofnodi a dadansoddi data perfformiad disgyblion?
- Pa mor dda y defnyddir TGCh i olrhain cynnydd a gosod targedau?
- Oes yna ymdriniaeth TGCh integredig ysgol gyfan at hyn?
- Ydy systemau TGCh yn cefnogi olrhain cynnydd disgyblion ac yn gosod targedau ar gyfer unigolion ac ysgol gyfan?
- Ydy data perthnasol ar gael yn ddiogel i staff, llywodraethwyr, rhieni / gofalwyr a disgyblion?

## Elfen 1 - Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### 1c Y defnyddio o TGCh i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trefniadaethol

| 1c-3 Cyfathrebu | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae ein defnydd o TGCh fel rhan o gyfathrebu ysgol yn ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| digwydd yn fewnol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | bob amser |
| digwydd yn allanol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn aml |
| cael ei adolygu a’i ddiweddaru | yn anaml | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn rheolaidd |
| cynnwys disgyblion, llywodraethwyr, rhieni /gofalwyr | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn aml |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Pa systemau electronig mae'r ysgol yn ddefnyddio ar gyfer cyfathrebu mewnol?
- Sut mae'r ysgol yn defnyddio systemau electronig i wella'i chyfathrebu gyda grwpiau gwahanol, megis disgyblion, rhieni / gofalwyr, llywodraethwyr, y gymuned ac asiantaethau eraill?
- Sut mae'r ysgol yn sicrhau fod y systemau hyn yn cwrdd â gofynion gwahanol ddefnyddwyr?
- Pa fanteision mae'r systemau electronig hyn yn gynnig dros ffyrdd mwy traddodiadol o gyfathrebu?
- I ba raddau mae'r systemau hyn yn integreiddio gyda systemau rheoli electronig eraill a ddefnyddir yn yr ysgol?

| 1c-4 Gwarchodaeth a diogelwch | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymarfer i sicrhau fod ein rhwydwaith defnyddwyr yn gyfrifol a diogel ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| Mae ymwybyddiaeth o fewn yr ysgol yn | gyfyngedig | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | gynhwysfawr |
| Mae polisïau cynhwysfawr yn eu lle | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn llawn |
| Mae polisïau yn cael eu gweithredu gan | ychydig o staff | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yr holl staff |
| Mae arferion yn cael eu monitro i sicrhau ymlyniad | byth | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn rheolaidd |
| Mae polisïau yn cael eu hadolygu a’u diweddaru | yn anfynych | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn aml |
| Mae camau yn cael eu cymryd i sicrhau defnydd diogel | yn yr ysgol yn unig | ☐ | ☐ | ict | ☐ | ☐ | yn a thu hwnt i’r ysgol |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Oes gan yr ysgol bolisïau perthnasol ar gyfer e-ddiogelwch i staff, disgyblion a'r gymuned?
- Ydy polisi'r ysgol ar gyfer iechyd a diogelwch (I&D) yn ystyried materion TGCh?
- Pa fesurau sydd gan yr ysgol yn eu lle i ddelio gydag e-ddiogelwch a materion I&D TGCh sy'n codi?
- Adnabyddwch fformad - diogelwch disgybl.
- Cyfrineiriau - gosod, sefydlu, newid polisi proses. Caniatâd - lefelau o fynediad, post mewnol ac allanol.
- Staff - wedi ei ymgorffori i delerau ac amodau cyflogaeth.
- Disgyblion - Polisi Defnydd Derbyniol (PDD) sy'n addas i oedran mewn cysylltiad â rhieni.
- Monitro - sancsiynau a chamau rhag ofn camddefnydd.
- Cefnogaeth ac Arweiniad - ar gyfer rhieni / gofalwyr, disgyblion gyda thramwyaeth gynyddol o fewn a thu hwnt i'r ysgol.
- Pa gyfran o'r staff a llywodraethwyr sy'n ymwybodol o'u cyfrifoldebau perthynol i e-ddiogelwch a materion I&D TGCh?
- Ydy'r ysgol yn cadw cofnod o faterion sy'n codi?
- Pa mor gyson y cymhwysir polisïau'r ysgol pan gyfyd materion?
- Sut mae'r ysgol yn cadw'n gyfredol gyda materion e-ddiogelwch a I&D TGCh newydd sy'n dod i'r amlwg?
- Pa bryd yr adolygwyd y polisïau a'u diweddaru ddiwethaf?
- Sut mae'r ysgol wedi cynnwys rhieni / gofalwyr a phartneriaid eraill yn eu cyngor ar e-ddiogelwch?

## Elfen 1 - Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### 1c Y defnyddio o TGCh i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd trefniadaethol

| 1c-5 Gwarchod Data a Rhyddid Gwybodaeth | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ein Gwarchod Data a'n Rhyddid Gwybodaeth ...** | | 5 | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| Trefniadau'n cydymffurfio gyda gofynion cyfreithiol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | yn llawn |
| Polisïau | ddim yn eu lle | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | cynhwysfawr |
| Polisïau yn cael eu deall gan | ychydig staff | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | yr holl staff |
| Polisïau yn cael eu gweithredu | yn anghyson | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | yn gyson |
| Trefniadau yn cael eu hadolygu | byth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | yn rheolaidd |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- I ba raddau mae staff a llywodraethwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau perthnasol i Warchod Data a Rhyddid Gwybodaeth gyda chyfeiriad at TGCh?
- Pa bolisïau sydd gan yr ysgol i gwrdd â'u hanghenion Gwarchod Data a Rhyddid Gwybodaeth statudol ar gyfer TGCh?
- Pa ganllawiau ymarferol mae'r ysgol yn ei roi i staff mewn perthynas â'r materion hyn?
- Pa mor gyson, a manwl gywir mae staff yn cymhwyso'r canllawiau yn y meysydd hyn?
- Pa ddatblygiad staff a hyfforddiant sydd wedi digwydd i sicrhau yr ymdrinir â'r materion hyn?

**Tystiolaeth:**
Trafodaethau gydag amrywiaeth o staff yn gweithredu gwahanol swyddogaethau. Archwiliad cynllunio athrawon, cofnodion asesu databasau ac adroddiadau ysgol. Archwiliad o wahanol ffurfiau o gyfathrebu electronig megis e-bost, gwefannau, cymunedau ar-lein rhwng cartref ac ysgol a'r gymuned ehangach. Adolygiad o unrhyw gynlluniau a chynigion a gynhyrchir gan dimau newidiadau ysgol a ffurfiwyd i gefnogi a gweithredu ail fodelu mewnol a mesurau diwygio gweithlu. Polisïau ar e-ddiogelwch neu ddefnydd derbyniol. Polisïau ac arweiniad ar Ddiogelwch Data a Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer staff. Data yn cael eu cadw'n electronig a thystiolaeth o ddadansoddiad o'r fath ddata. Logiau perthynol i risg ac e-ddiogelwch, Gwarchod Data neu Ryddid Gwybodaeth. Adroddiadau / cofnodion llywodraethwyr.

## Elfen 1 - Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### 1d Monitro a gwerthuso

Mae'r llinyn hwn yn gyntaf, yn ymchwilio i sut mae'r ysgol yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd gweithrediad ei strategaeth TGCh ar draws yr ysgol a'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i wneud y gwerthusiadau hyn, ac yn ail, sut mae'r strategaeth yn effeithio ar ddeilliannau disgyblion. Lle mae arfer yn y maes hwn wedi'i ddatblygu'n dda, mae monitro rheolaidd ar weithrediad strategaeth TGCh yn galluogi'r ysgol i fonitro ei chynnydd yn erbyn targedau, i flaenoriaethu ei chynllunio ar gyfer datblygiadau'r dyfodol ac i arddangos ei hatebolrwydd i fudd-ddeiliaid eraill. Mae'r fath ysgolion yn defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth sy'n eu galluogi i gysylltu eu gwerthusiadau i effeithiau ar ddeilliannau disgyblion.

| **1d-1 Gwerthuso effeithiolrwydd y strategaeth TGCh** | | ⇨ cynnydd ⇨ | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae monitro effeithiolrwydd ein strategaeth TGCh ...** | | **5** | **4** | **3** | **2** | **1** | |
| yn digwydd | byth | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn rheolaidd |
| ⇨ | heb ei gynllunio | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn systematig |
| wedi ei seilio ar | leiafswm tystiolaeth | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | dystiolaeth helaeth |
| yn cyfrannu at gynllunio ar gyfer y dyfodol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn rheolaidd |
| yn cyfrannu at arferion ar gyfer y dyfodol | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn rheolaidd |
| yn cael ei ddefnyddio i arddangos atebolrwydd | dim o gwbl | ☐ | ☐ | ☐ | ict | ☐ | yn llawn |

**Canllawiau / Cwestiynau**

- Pa fonitro mae'r ysgol wedi ei gymryd i adnabod effeithiolrwydd ei strategaeth TGCh?
- Ydy monitro yn digwydd yn rheolaidd i gyfrannu at gynllunio, neu er ei fwyn ei hun?
- Sut mae'r ysgol yn defnyddio canlyniadau monitro i flaenoriaethu cynllunio'r dyfodol ar gyfer TGCh?
- Sut mae'r ysgol yn sicrhau fod monitro yn wrthrychol?
- Sut mae canlyniadau monitro yn cael eu defnyddio i arddangos atebolrwydd i bartneriaid mewnol a/neu allanol?

**Tystiolaeth:**

Trafodaethau gyda'r staff. Data ar ansawdd gwaith y disgyblion wrth ddefnyddio TGCh. Data ar ansawdd y dysgu gan gynnwys effaith ar ymrwymiad, cymhelliant a datblygiad sgiliau dysgu'r disgyblion. Deilliannau o arsylwadau gwersi a lefel gallu TGCh y disgyblion. Trafodaethau gyda'r disgyblion sy'n dangos beth maent yn ei wybod, deall a'i wneud wrth gymhwyso TGCh yn eu dysgu. Cynlluniau sy'n dangos sut mae monitro a gwerthuso TGCh wedi ei weithredu. Cofnodion cyfarfodydd llywodraethwyr neu eraill sy'n nodi unrhyw brosesau neu ganlyniadau o werthuso effaith TGCh. Data ac unrhyw ganlyniadau dadansoddiad data sy'n cyslltu TGCh ac effaith ar gynnydd disgyblion.